Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

Annwyl Riant/Warchodwr

Pori Drwy Stori- Rhaglen Meithrin

Mae Pori Drwy Stori yn gynllun newydd a dwyieithog sydd yn ysbrydoli cariad at lyfrau, storïau a rhigymau ac yn cynorthwyo plant i ddatblygu sgiliau siarad, gwrando a rhifedd. Mae wedi'i ddylunio i gefnogi'r cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol ac annog rhieni/ gofalwyr i chwarae rôl weithredol yn y ffordd mae eu plant yn dysgu.

Bwriad y cynllun yw i wella canlyniadau addysgol i blant yn y maes dysgu Llafaredd. Mae'r cynllun yn darparu adnoddau i'w defnyddio yn yr ysgol ac adref gan annog y rhieni i fod yn rhan o addysg y plant. I grynhoi bwriad y cynllun yw:-

- Gwella canlyniadau i blant yn gysylltiedig â llafaredd, ac
- Cynyddu'r cyswllt sydd gan rieni/gofalwyr a'r ffordd mae plentyn yn dysgu.

Mae dau brif elfen i'r cynllun, 'Mae'n amser rhigwm' a 'Sôn am lyfr'. Yr elfen cyntaf yw 'Mae'n amser rhigwm'. Am yr wythnosau nesaf bydd eich plentyn yn dod â'r waled blastig adref sydd yn cynnwys rhigwm newydd bob wythnos. Yn y waled yr wythnos hon mae Calendr Rhigwm, taflen rhigwm Pum Hwyaden a thaflen weithgaredd Pum Hwyaden. Cadwch y calendr adref a dychwelwch y bag i'r ysgol bob dydd Iau gyda'r slipiau adborth melyn wedi'u cwblhau. Byddwn yn dysgu'r rhigymau yn yr ysgol hefyd. Cyfeiriad wefan Booktrust yw booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery. Gofynnwn yn garedig hefyd i chi osod unrhyw luniau o'ch plentyn yn mwynhau'r adnoddau ar gyfrif Trydar yr ysgol.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r adnoddau a diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Rhian Sennitt